# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **09: – 11:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_07_11_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Richard Clarke, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Kerry Dearden (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Buddsoddi i Arbed – Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ; Jeff Andrews, Cynghorydd Arbenigol; a Richard Clarke, Pennaeth yr Uned Buddsoddi i Arbed.

2.2 Craffodd yr Aelodau ar waith y Gweinidog.

**Camau Gweithredu**:

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r saith argymhelliad a ddeilliodd o werthusiad interim Buddsoddi i Arbed.
- Tabl yn amlinellu cyfanswm yr arbedion sydd wedi'u cyflawni gan brosiectau ers rhoi'r rhaglen Buddsoddi i Arbed ar waith.
- Tabl o'r holl ad-daliadau a wnaed gan brosiectau Buddsoddi i Arbed ers rhoi'r rhaglen ar waith.
- Dadansoddiad blynyddol o'r prosiectau a gafodd eu cyhoeddi ym mhob rownd Buddsoddi i Arbed a'r dyfarniadau prosiect a gafodd eu cynnwys ym mhob dyraniad o'r gyllideb.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papur ar oblygiadau ariannol y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol a chytunodd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth ariannol gadarn mewn perthynas â deddfwriaeth newydd.

3.2 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 a 6.

## 5. Buddsoddi i Arbed - Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd ar yr ymchwiliad i Fuddsoddi i Arbed.

## 6. Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried yr adroddiad drafft ar Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru tan ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2012.